



Cynllun Llyfrgelloedd 2017-2022

BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER LLYFRGELLOEDD AWEN

Fel rhan o gytundeb partneriaeth 20 mlynedd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gweithredu ac yn rheoli'r gwasanaeth llyfrgelloedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gweledigaeth strategol Awen ar gyfer ein llyfrgelloedd yw:

- gwella llythrennedd pobl o bob oed;
- cefnogi darllen er pleser;
- gwella lles a darparu mynediad diduedd at ffynonellau gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt.

Ochr yn ochr â thrawsnewid ein llyfrgelloedd yn barhaus, bydd darllen yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw -

Datblygu manau llyfrgell newydd

- Rydym yn cydnabod yr angen i'n manau ddiwallu gofynion ein cymunedau - manau ar gyfer bygis a chadeiriau modur, lloriau nad ydynt yn llithrig ar gyfer y sawl sydd â symudedd gwael, arwyddion clir ar gyfer y sawl sydd â golwg cyfyngedig, lloriau gwastad ar gyfer y sawl sydd mewn cadeiriau olwyn, a manau sy'n croesawu newid babanod a bwydo ar y fron i'n teuluoedd ifanc. Byddwn yn buddsoddi yn ein llyfrgelloedd i fodloni'r anghenion hyn.
- Bydd ailddiffinio ein llefydd yn sail i ddatblygiadau yn y dyfodol ac yn cydnabod ymddygiadau, arferion a gofynion newidiol ffyrdd o fyw'r 21ain Ganrif. Rydym yn deall ei fod yn bwysig i'n llyfrgelloedd fod yn fannau cymunedol amlbwrpas hyblyg a byddwn yn buddsoddi yn ein seilwaith er mwyn diwallu'r angen hwn.
- Bydd yr ailddatblygiad blaenllaw yn Neuadd y Dref Maesteg yn cynnwys gwell darpariaeth llyfrgell, a byddwn hefyd yn ceisio atebion i wella cyfleusterau llyfrgell ym Mhorthcawl fel rhan o ddatblygiadsafle Pafiliwn y Grand. Bydd y ddau brosiect yn annog cyfranogi ac ymgysylltu mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth yn ogystal â chynhyrchu buddion economaidd ehangach.

Creu lleoedd a chyfleoedd sy'n gwella llythrennedd plant a meithrin cariad at ddarllen

- Mae gan lyfrgelloedd rôl bwysig o ran gwella llythrennedd plant. Byddwn yn buddsoddi mewn rhaglen ailwampio llyfrgelloedd ein plant er mwyn eu gwneud yn gyrchfannau deniadol ar gyferpobl ifanc yfory, cynyddu nifer yr aelodau ifanc o'r llyfrgell ac yn cyfrannu tuag at welliannau mewn llythrennedd plant trwy ehangu cyfleoedd ar gyfer darllen er pleser, sydd yn benderfynydd profedig o ganlyniadau addysgol a chymdeithasol gwell.
- Byddwn yn cefnogi rhaglenni cenedlaethol sy'n ymgysylltu â phlant ac yn meithrin cariad at ddarllen megis Her Darllen yr Haf, Pob Plentyn yn Aelod a Dechrau Da, a'u cefnogi trwy gynnal gweithgareddau a digwyddiadau rheolaidd ar gyfer plant.
- Credwn fod ein llyfrgelloedd yn fannau diogel yn ein cymunedau, lle mae adloniant, diwylliant, dysgu anffurfiol a hwyl yn cael eu cynnig am ddim ac yn llinyn pwysig sy'n rhedeg trwy blentyndod i fyd oedolion ifanc a thu hwnt.

Agenda sgiliau digidol

- Ar hyn o bryd rydym yn gwneud cyfraniad allweddol wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol. O sesiynau galw heibio digidol sy'n cynnig cymorth ac addysgu digidol ad-hoc, a chefnogi ceiswyr gwaith i chwilio a gwneud ceisiadau, i gydlynu ein hystod o e-wasanaethau er mwyn cyflwyno arlwy cydlynol, deniadol. Byddwn yn gwrandao ar gymunedau ac yn ymgysylltu â nhw i wneud gwelliannau parhaus i galedwedd ein gwasanaethau. Yn gysylltiedig â hyn bydd buddsoddiad mewn hyfforddiant staff - bydd y ddau yn cefnogi ein sefyllfa fel 'ddeg gymorth TG y gymuned'.
- Mae patrymau defnydd llyfrgelloedd yn dangos sut mae defnyddwyr yn newid eu hymddygiad yn raddol ac yn ymgysylltu'n gynyddol â'r gwasanaethau ar-lein a gynigir gan lyfrgelloedd. Mae benthyciadau blynyddol e-lyfrau, e-sain ac e-gylchgronau yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, mae bron i chwarter archebion llyfrau'n cael eu gwneud ar-lein drwy'r wefan ac mae dwy ran o dair o achlysuron cyhoeddi llyfrau yn Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gwneud trwy'r peiriannau hunan-gyhoeddi. Byddwn yn monitro'r tueddiadau defnydd hyn ac yn sicrhau bod ein hadnoddau yn cyd-fynd â'r galw.
- Credwn y gall llyfrgelloedd wneud cyfraniad allweddol at addysg ddigidol plant. Byddwn yn cynnig clybiau Technoleg (codio, argraffu 3D, Lego) sydd â chaledwedd, meddalwedd a staff hyfforddedig i sicrhau profiad addysg dechnoleg o ansawdd uchel, a byddwn yn ceisio cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff a chydweithio ag addysgwyr a grwpiau plant.

Lles

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rôl i wella lles dinasyddion trwy ddarparu gweithgareddau sydd yn galluogi rhyngweithio cymdeithasol, yn darparu ysgogiad meddyliol ac yn cyfrannu at yr agenda atal anawsterau iechyd.
- Bydd pwysigrwydd lle cynnes a chroesawgar llyfrgell yn fwyfwy hanfodol pan fydd oedolion yn agored i niwed neu'n ynysig. Byddwn yn parhau i lunio ein gwasanaethau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ysgogi meddyliol.
- Byddwn yn ennill ac yn cynnal statws Cyfeillgar i Dementia.

EIN HADDEWIDION

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein llyfrgelloedd. Mae hyn yn cynnwys ein stoc llyfrau, adnoddau ar-lein, adeiladau a gofodau, rhaglen, ac yn ein staff ardderchog.
- Byddwn yn parhau i raglennu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u targedu at blant a fydd diddori, yn diddanu ac yn addysgu. Rydym wedi nodi ein gweithgareddau craidd i blant fel amseroedd stori a Bownsio a Rhigymau, y bydd pob llyfrgell yn cynnal o leiaf un sesiwn ohonynt yr wythnos.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn Her Darllen yr Haf, yn cysylltu ag ysgolion i'w hyrwyddo ac yn cydweithio â Rhaglenwyr Awen i archebu artistiaid proffesiynol a chyffrous i ymgysylltu â defnyddwyr newydd.
- Byddwn yn parhau i gynnal gweithgareddau (ac ymgysylltu â phartneriaid) i alluogi rhyngweithio cymdeithasol a symbylu meddyliol i oedolion, yn arbennig y sawl sydd wedi'u hynysu oherwydd oedran neu salwch sy'n cyfyngu ar amser megis dementia. Byddwn yn dod yn sefydliad Cyfeillgar i Ddementia erbyn Hydref 2019.
- Byddwn yn addasu ac yn buddsoddi yn ein Gwasanaeth Llyfrgell Symudol er mwyn cyrraedd mwy o gartrefi ac unigolion a theuluoedd ynysig.
- Byddwn yn parhau i gynnig cymorth digidol. Bydd pob llyfrgell hefyd yn cynnal sesiwn darganfod digidol wythnosol wedi'i amserlennu.
- Byddwn yn adolygu ein caledwedd a'n meddalwedd yn flynyddol ac yn gwneud buddsoddiad lle bo angen er mwyn cefnogi ein cymunedau orau.
- Byddwn yn parhau i geisio partneriaethau â sefydliadau lleol a chenedlaethol a all wella ein harlwy a gwella bywydau ein defnyddwyr.
- Byddwn yn dileu dirwyon er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau, gwirioneddol neu ganfyddedig i bobl sy'n cyrchu ein llyfrgelloedd a phopeth sydd ganddynt i'w gynnig.